Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**CYNGOR**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 1.00 pm ddydd Iau 27 Mawrth 2025 yng Nghampws Westferry, Llundain

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans CB (Is-Ganghellor)
John Edge
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Natalie Beard
Dr Tracy Cruickshank
Maria Dinu
Yr Athro Kyle Erickson
Dr Deborah Hughes
Rowland Jones (Teams)
Geraint Roberts
Katrin Shaw

**Hefyd yn bresennol:**
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cynghorau
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Dr Chris Marshall, Prif Swyddog Staff
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Yr Athro Mirjam Plantinga, PIG (Profiad Myfyrwyr)
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

**Sylwedydd:**
Hugh Jones, Ymgynghorydd

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.19<br>Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Justin Albert, Dr Andrew Cornish, Geraint Evans, Emlyn Schiavone, Iwan Thomas a Deris Williams. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
| --- | --- |
| | Croesawodd y Cyngor Dr Chris Marshall, Prif Swyddog Staff a Phennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, i'w gyfarfod cyntaf.<br><br>Nododd y Cyngor bod Natalie Beard a Maria Dinu yn mynychu eu cyfarfod olaf o'r Cyngor. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu cyfraniad i'r Cyngor a'r Brifysgol, a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol. |
| 25.20<br>Datgan Buddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau y Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (JCO333).<br><br>Gwnaed y datganiadau ychwanegol a ganlyn:<br><br>Dr Liz Siberry – Eitem 2.2. ar yr Agenda (Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Gregynog)<br>Dr Stuart Robb – Eitem 2.4 ar yr Agenda (Ymddiriedolwr o'r UWRET)<br>Tim Llewellyn – Eitem 5.1 ar yr Agenda (Aelod o Gorff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru) |
| 25.21<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad llafar gan y Cadeirydd.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu eu gwerthusiadau / trafodaethau un i un. Bu'r broses yn fuddiol, ac fe fyddai'n rhoi adroddiad manylach yng nghyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ym mis Mai.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfarfod cyhoeddus diweddar yn Llambed, a fynychwyd gan nifer o aelodau. Nododd fod yr ymateb gan wleidyddion lleol a chenedlaethol wedi bod yn bositif a bod cadeirydd y cyfarfod yn awyddus i barhau â'r trafodaethau.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at agoriad swyddogol y Matrics Arloesi ym mhresenoldeb aelodau'r Senedd a Llywodraeth y DU, a diolchodd i swyddogion am y trefniadau a wnaed. |
| 25.22<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad llafar gan yr Is-Ganghellor.<br><br>Rhoddodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad i'r aelodau ar sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r sector yn fwy cyffredinol. Nododd ei bod yn ddiolchgar i'r Cyngor am gefnogi'r swyddogion gweithredol wrth wneud penderfyniadau anodd er mwyn gwella cynaliadwyedd. Roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gyflawni arbedion ac roedd gwariant nad oedd yn gysylltiedig â chyflogau'n cael ei reoli'n ofalus. Gwnaed newidiadau yn y Swyddfa Ryngwladol a oedd eisoes yn darparu buddiannau o ran recriwtio myfyrwyr. Tynnodd sylw'r aelodau at y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud i ddatblygu model ariannol cadarn, a fyddai'n ganolog i broses cynllunio busnes y Brifysgol yn y dyfodol ac a oedd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r trafodaethau presennol o ran cyllido mwy hir dymor. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
| --- | --- |
| | Adrodd yr Is-Ganghellor ar gynnydd o ran prosiect Dyfodol Llambed, a oedd yn cael ei arwain gan y PIG (Cysylltiadau Masnachol a Busnes). Roedd adroddiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu yn y papurau. Hefyd, roedd trafodaethau cynhyrchiol yn mynd rhagddynt gyda'r Academi Sinoleg a byddai'r Brifysgol hefyd yn derbyn ymweliad gan gynrychiolwyr Sefydliad Khalifa yn y dyfodol agos.<br><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i adnabod blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Strategol 2025-2030, a byddai drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w drafod maes o law. Un o'r prif ffocysau fyddai cyfnerthu gwaith cydweithredol Grŵp PCYDDS ac AB, yn unol ag uchelgeisiau Medr ar gyfer y sector trydyddol.<br><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor bod campws Glannau SA1 wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar yn un o leoliadau rowndiau terfynol Cenedlaethol World Skills UK. Adroddodd hefyd ar lwyddiannau chwaraeon diweddar.<br><br>Dywedodd Cadeirydd Bwrdd CSG bod Dr Andrew Cornish yn ddiweddar wedi cyhoeddi y bydd yn ymddeol o'i swydd Pennaeth Coleg Sir Gar a Choleg Ceredigion. Dymunodd ddiolch iddo ar ran y Bwrdd am ei holl waith. Ategodd yr Is-Ganghellor y diolch a nododd y byddai cyfle i'r Brifysgol ddiolch iddo'n ffurfiol cyn hir.<br><br>O ran Prifysgol Cymru, adroddodd yr Is-Ganghellor bod gwaith yn mynd rhagddo ar ystod o faterion etifeddiaeth. O ran Gwasg Gregynog, roedd adroddiad astudiaeth dichonoldeb a ariannwyd yn allanol wedi cael ystyriaeth gychwynnol gan yr UDRh, a byddai opsiynau'n cael eu cyflwyno i gyfarwyddwyr y cwmni i'w hystyried ym mis Mehefin 2025. Roedd trafodaeth anffurfiol hefyd wedi'i drefnu gydag ymddiriedolwyr Neuadd Gregynog.<br><br>Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo mewn perthynas â Phrifysgol Ryngwladol Malaya Cymru, partneriaeth gydweithredol hirsefydlog a weithredir drwy fenter ar y cyd lle mae PC, trwy ei his-gwmni Awen Wales, yn meddu ar ganran fach o gyfranddaliadau. Ar hyn o bryd, roedd PC a PCYDDS dan bwysau i gynyddu'r buddsoddiad ariannol ac roedd swyddogion yn parhau i archwilio opsiynau. Byddai diweddariad yn cael ei ddarparu maes o law. |
| 25.23<br>Adroddiad Undeb y Myfyrwyr | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Undeb y Myfyrwyr (JCO334).<br><br>Canolbwyntiodd yr adroddiad ar ymgysylltu'r Uned â Phrosiect Campysau'r Gorllewin a phrosiect adleoli Campws Busnes Abertawe a darparwyd diweddariadau gan y timau Cyfleoedd Myfyrwyr, Llais y Myfyrwyr a Chyngor Myfyrwyr.<br><br>O ran adleoli YFA, adroddodd Llywydd Myfyrwyr Abertawe ei bod mewn cysylltiad â myfyrwyr a swyddogion ynglŷn â'r symud, gan gynnwys trafodaethau ynghylch parcio. Byddai'n parhau i fwydo'n ôl i fwrdd y prosiect ac i weithio gyda'r corff myfyrwyr. O ran adleoli'r Dyniaethau, ymatebodd y PSG i ymholiadau'r aelodau. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | Diolchodd yr aelodau myfyrwyr i'r Cyngor a swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod eu cyfnodau yn y swydd. |
| 25.25<br>Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ac Adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd | YSTYRIODD y Cyngor Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2023/24 a'r adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd (JCO336).<br><br>Cafodd y Cyngor ei atgoffa bod rhaid i'r Brifysgol gyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol a data blwch cyflog erbyn 31 Mawrth 2025.<br><br>DD Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2023/24 yn cynnwys diweddariad ar gynnydd yn erbyn y targedau a amlinellwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol (2024-28), yn ogystal â dadansoddiad manwl o'r proffil staff a myfyrwyr yn ôl nodweddion gwarchodedig. Adroddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol nad oedd ystadegau myfyrwyr HESA ar gyfer 2023/24 ar gael adeg paratoi'r adroddiad ac felly y byddai'r adroddiad yn cael ei ddiweddaru yn dilyn rhyddhau'r data. Cyfeiriodd at brif fewnwelediadau i'r adroddiad, gan nodi'n arbennig proffil oed staff a oedd yn wahanol i'r cyfartaledd ar draws y sector.<br><br>O ran yr adroddiad Blwch Cyflog Rhywedd, nododd y Cyngor y cynnydd a wnaed a'r gweithgareddau i hyrwyddo cydraddoldeb rhyw ar draws y sefydliad. |
| 25.26<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg:<br>6 Chwefror 2025 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2025 (JCO337).<br><br>Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg sylw'r aelodau at oblygiadau'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang IIA newydd a dywedodd y byddai swyddogion a'r archwilwyr mewnol yn paratoi cynllun gweithredu mewn ymateb.<br><br>DERBYNIODD y Cyngor y Gofrestr Risg Gorfforaethol (JCO350).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Risg bod contractau cyfredol y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol yn cael eu hymestyn am gyfnod pellach o flwyddyn. Nododd yr aelodau y byddai'n ddymunol chwilio am archwilwyr newydd ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. |
| 25.27<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu:<br>17 Mawrth 2025 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025 (JCO338). |
| 25.28<br>Adroddiad y Pwyllgor Taliadau: 10 Chwefror 2025 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2025 (JCO339). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.29<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad blynyddol 2024/25 y Pwyllgor Taliadau (JCO340). |
| 25.30<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad: 12 Chwefror 2025 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2025 (JCO31).<br><br>DERBYNIODD y Cyngor:<br>• Yr adroddiad monitro Cynllun Busnes (JCO351)<br>• Yr adroddiad Prif Ddangosyddion Perfformiad (JCO352)<br>• Y diweddariad ar fentrau ystadau allweddol (JCO353)<br>• Yr adroddiad cyllideb cyfalaf (JCO354) |
| 25.31<br>Adroddiad y Senedd: 19 Chwefror 2025 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2025 (JCO343a). |
| 25.32<br>Fframwaith Athrawon Ymarfer Anrhydeddus | CYMERADWYODD y Cyngor:<br><br>(a) Y Fframwaith Athro Ymarfer Anrhydeddus diwygiedig, yn ôl argymhelliad y Senedd (JCO343b);<br><br>(b) Argymhelliad y Senedd y dylid gwneud addasiadau bach i Ordinhad II a III i wahaniaethu'n glir rhwng apwyntiadau Athrawon Ymarfer Anrhydeddus a dyfarniadau anrhydeddus eraill, gan nodi y byddai'r mater hwn yn cael ei symud ymlaen gan y Clerc trwy'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. |
| 25.33<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion Anghyfyngedig a Chyfyngedig cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2025 (JCO344b a JCO344c). |
| 25.34<br>Diweddariad ar Ddyfodol Llambed | DERBYNIODD y Cyngor y diweddariad ar Ddyfodol Llambed (JCO346). |
| 25.35<br>Diweddariad ar yr Adolygiad Cwricwlwm | DERBYNIODD y Cyngor y diweddariad ar yr Adolygiad Cwricwlwm (JCO347). |
| 25.36<br>Gweithredu gan y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Gweithredu gan y Cadeirydd (JCO348). |
| 25.37 | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o Sêl y Brifysgol (JCO349). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| Defnyddio Sêl y Brifysgol | |
| 25.38<br>Datgan Buddiannau | Roedd y datganiadau a ganlyn wedi'u nodi:<br><br>Dr Liz Siberry – Eitem 2.2. ar yr Agenda (Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Gregynog)<br>Dr Stuart Robb – Eitem 2.4 ar yr Agenda (Ymddiriedolwr o'r UWRET).<br>Tim Llewellyn – Eitem 5.1 ar yr Agenda (Aelod o Gorff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru)<br><br>Nid wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eraill yn ystod y cyfarfod. |
| 25.39<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 10 Gorffennaf 2025. |
| MATERION A NEILLTUIR | |
| 25.40<br>Cofnodion Cyfyngedig Cyngor PCYDDS | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion Cyfyngedig Cyngor PCYDDS a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2025. |

Terfynwyd y cyfarfod am 15.50